**CAU MEDDYGFA GANGEN DERI, RIVERSIDE WALK, DERI, BARGOD**
CWESTIYNAU CYFFREDIN

**C1 Beth mae cau'r feddygfa gangen yn ei olygu i mi a/neu fy nheulu?**

A1 Pan fydd y gangen yn cau, bydd yr holl gleifion presennol yn aros wedi cofrestru gyda Meddygfa Cwm Rhymni Practice, Rhymni. Mae hyn yn golygu, o'r 20fed o Hydref 2023 ymlaen, y byddwch yn cael mynediad at holl wasanaethau gofal iechyd o'r safleoedd yn Rhymni neu safle cangen Tredegar Newydd.

Mae'r practis yn ymrwymedig o hyd i ddarparu Gwasanaethau Gofal Iechyd i'w holl gleifion cofrestredig naill ai drwy ymgynghoriadau fideo, ymgynghoriadau dros y ffôn, neu drwy ymgynghoriadau wyneb yn wyneb o safleoedd Rhymni a Thredegar Newydd.

**C2 Mae cael apwyntiad eisoes yn anodd. Yn aml mae'n rhaid aros am amser hir iawn. Mae'n anodd hefyd mynd drwodd ar y ffôn. Does bosib na fydd hyn yn cael mwy o effaith gan y bydd cleifion Deri yn gorfod mynychu'r safleoedd eraill yn Rhymni/Tredegar Newydd?**

A2 Nid yw'r practis yn lleihau nifer yr apwyntiadau sydd ar gael i gleifion nac yn lleihau eu lefelau staffio. Bydd holl staff ac apwyntiadau Deri yn cael eu trosglwyddo a'r nod yw cynyddu nifer yr apwyntiadau sydd ar gael yn y safleoedd eraill. Mae'r practis yn rhagweld y bydd cael yr un adnoddau, ond dros lai o safleoedd, yn caniatáu iddynt reoli galw cleifion yn fwy effeithlon a diogel. Mae digon o ystafelloedd ymgynghori ar y safleoedd eraill ac mae hyn yn eu galluogi i reoli'r cynnydd yn yr apwyntiadau sy'n cael eu cynnal.

**C3 A fyddaf yn dal yn gallu gweld fy meddyg teulu arferol neu Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol arall yn y safleoedd eraill yn Rhymni/Tredegar Newydd?**

A3 Bydd holl staff y practis, boed yn glinigwyr neu'n staff gweinyddol/derbynfa yn dal ar gael, a gallwch ymgynghori/siarad â hwy o'r ddau safle arall yn Rhymni/Tredegar Newydd, yn ddibynnol ar eu hargaeledd o ddydd i ddydd.

**C4 Ni fydd yn hawdd i mi ollwng fy nghais am bresgripsiwn rheolaidd misol yn Rhymni.**

A4 Mae trefniadau eisoes ar waith er mwyn caniatáu i gleifion Deri archebu presgripsiynau rheolaidd drwy fferyllfeydd lleol a My Health

On-Line (MHOL). Mae'r practis wedi cadarnhau y bydd y trefniadau yma'n parhau ac y byddant yn cysylltu â'r holl fferyllfeydd sy'n casglu presgripsiynau o Deri ar hyn o bryd i'w hysbysu y bydd angen casglu'r presgripsiynau yma o Rhymni/Tredegar Newydd fel y bo'n briodol.

**C5 A fydd mwy o feddygon a nyrsys ar gael yn y safleoedd eraill?**

A5 Bydd, bydd staff clinigol safle cangen Deri yn symud i'r safleoedd eraill. Mae'r practis hefyd yn teimlo y gallai cael un safle yn llai helpu i ddenu meddygon teulu newydd neu staff clinigol eraill i weithio ym Meddygfa Cwm Rhymni Practice. Bydd darparu gofal o un safle yn llai yn helpu'r practis i gael ystod ehangach o arbenigedd clinigol o dan yr un to, gan wella gofal a diogelwch cleifion a darparu gwell parhad o ran gofal i gleifion.

**C6 Mae gen i broblemau symudedd a/neu broblemau trafnidiaeth sy'n ei gwneud hi'n anodd cyrraedd y safleoedd eraill yn Rhymni/Tredegar Newydd, beth yw fy opsiynau?**

A6 Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu diweddar lle gallai pobl roi adborth am y bwriad i gau, mae'r practis yn deall y gallai nifer fechan o gleifion ei chael yn anodd teithio i safleoedd eraill. Byddant yn ceisio darparu ar gyfer cleifion trwy gynnig gwahanol fathau o ymgynghoriadau gan gynnwys ymgynghoriad dros y ffôn a fideo, ond bydd adegau pan fydd angen apwyntiad wyneb yn wyneb.

Bydd y practis yn parhau i gynnal ymweliadau cartref â chleifion cofrestredig lle bo hynny'n glinigol briodol, ni waeth ble maent yn byw.

Os teimlwch na allwch deithio i Rhymni/Tredegar Newydd, efallai yr hoffech gofrestru gyda phractis meddyg teulu arall yn nes at adref. Cyn belled â'ch bod yn byw o fewn ffiniau practis, gallwch gofrestru â hwy. Mae'r feddygfa isod yn darparu gwasanaethau i'r rhan helaethaf o ardal Deri ac mae rhif cyswllt/gwefan y practis wedi'u cynnwys er hwylustod i chi:

| **Practis:** |
| --- |
| Meddygfa Bryntirion<br>**01443 830 769**<br>www.bryntirionsurgery.wales.nhs.uk |

**C7 Sut ydw i'n cofrestru gyda darparwr arall os ydw i'n dewis gwneud hynny?**

A7 Gallwch gysylltu â’r feddygfa o’ch dewis yn uniongyrchol a gwneud cais i gofrestru gyda hwy, a byddant yn gallu eich cefnogi drwy’r broses gofrestru. Fel arall, gall aelod o’r Tîm Gofal Sylfaenol eich cefnogi gyda hyn, os yw’n well gennych. Gallwch ffonio 01495 241282, 01495 241258 neu 01495 241293.

**C8 Sut byddaf yn gwybod pa wasanaethau y mae practisau meddygon teulu eraill yn eu darparu a sut i gael gafael arnynt?**

A8 Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut i gael mynediad at y gwasanaethau a gynigir ym mhob un o'r practisau trwy ymweld â'u gwefan, ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn y tabl uchod. Fel arall, gallwch ffonio'r practis yn uniongyrchol i wneud ymholiadau.

**C9 Pam na all pethau aros yr un fath, rwyf wedi bod yn mynychu Meddygfa Gangen Deri ers blynyddoedd lawer?**

A9 Bydd cau safle cangen Deri yn cefnogi'r Practis i barhau i ddarparu gwasanaethau i'w cleifion a sicrhau practis a gweithlu cynaliadwy yn y tymor hir.

**C10 Ai arian sydd wrth wraidd hyn?**

A10 Na, mae digon o arian i gyflogi’r holl feddygon teulu sydd eu hangen ar gyfer y boblogaeth.

**C11 A allaf wneud unrhyw beth i helpu?**

A11 Y cyngor cyffredinol i unrhyw un sy’n ystyried gwneud apwyntiad gyda’r practis fyddai ystyried:

- A oes angen i mi weld meddyg, neu a oes modd i mi ofyn am weld aelod gwahanol o'r tîm gofal iechyd, ee nyrs practis, uwch ymarferydd ac ati?
- A oes modd i mi ymweld â fferyllfa yn hytrach na’r practis?
- Oeddech chi'n gwybod am Gynllun Anhwylderau Cyffredin Fferyllfeydd Cymunedol?

Mae gwasanaeth anhwylderau cyffredin fferyllfa gymunedol yn gynllun ar gyfer cleifion sy’n gallu ymgynghori â fferyllfa gymunedol sy’n rhan o’r cynllun, yn hytrach na’u meddyg teulu. Mae **rhestr benodol** ar gael o anhwylderau cyffredin na fyddai angen i nyrs neu feddyg eu gweld o bosibl. Bydd y fferyllydd yn rhoi meddyginiaeth o fformiwlari y cytunwyd arno, yn rhoi cyngor neu’n cyfeirio’r claf at y meddyg teulu os oes angen. **Darperir meddyginiaethau am ddim.**

*********************************************